Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

2 Rhagfyr 2010

Cleifion Dialysis yn Ysbyty Glan Clwyd yn cynnal eu harddangosfa gelf gyntaf

Mae cleifion dialysis yn Ysbyty Glan Clwyd ar fin cynnal eu harddangosfa gelf gyntaf i arddangos y gwaith celf gwych maen nhw wedi eu creu yn ystod eu triniaeth. Enw'r arddangosfa, a fydd yn codi arian ar gyfer uned arennol yr ysbyty, yw 'Trysorau Celf' a bydd i'w gweld yng Ngaleri Llyfrgell Rhuddlan rhwng 27 Tachwedd ac 8 Ionawr 2011.

Fel rhan o un o raglenni cyntaf y GIG sydd yn integreiddio celf a meddyginiaethau, mae cleifion sy'n derbyn triniaeth Haemodialysis yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael mwynhau dosbarthiadau celf o dan arweiniad yr 'artist preswyl' Jan Gardner. Gan fod triniaeth ddialysis yn aml yn cael ei rhoi deirgwaith y dydd am bedair awr ar y tro, mae Ysbyty Glan Clwyd wedi cyflwyno'r gwersi celf hyn i ysgafnhau'r amgylchedd clinigol yn yr ysbyty.

Gydag arian gan Goleg Harlech a chefnogaeth Cyfeillion Gofal Arennol, mae'r sesiynau hyn wedi rhoi'r cyfle i gleifion ddefnyddio a phrofi gwahanol ddefnyddiau i fynegi eu hunain. Bydd yr arddangosfa'n cynnwys dros 30 o ddarnau gwych wedi eu creu gan y cleifion yn ystod eu triniaeth. Bydd printiau o rhai o'r darnau ar gael i'w prynu yn yr arddangosfa hefyd a bydd yr holl arian yn mynd tuag at yr uned arennol.

Dywedodd Dr Aled Lewis, Meddyg Ymgynghorol Arennol yn Ysbyty Glan Clwyd: "Mae ein cleifion arennol yn aml yn pryderu am ddod i'r ysbyty am y driniaeth yma, triniaeth sy'n cymryd llawer o amser. Fodd bynnag, mae'r gwersi celf hyn yn sicrhau bod ganddynt rywbeth i edrych ymlaen ato.

"Mae hi wedi bod yn dda i gael gweld sut mae rhoi'r cyfle i gleifion ddysgu sgiliau newydd wrth dderbyn triniaeth wedi helpu i leddfu'r straen sy'n gysylltiedig â methiant yr arennau a thriniaethau. Mae'r gwersi yma wedi gwneud yr amser y bu cleifion yn ei dreulio ar ddialysis yn fwy difyr. Mae o hefyd wedi gwneud iddyn nhw gael mwy o ffydd ynddynt eu hunain a theimlo eu bod nhw wir yn llwyddo.

"Rydym yn falch o'n cleifion talentog ac rydym yn gobeithio y bydd yr arddangosfa'n llwyddiant mawr ac yn codi arian y mae'r uned arennol yma yn Ysbyty Glan Clwyd wir ei angen. "

Ychwanegodd Caz Hughes, un o'r cleifion a fydd yn arddangos ei gwaith: "Cyn i'r gwersi celf gychwyn, roedd sesiynau dialysis yn golygu eistedd yn llonydd am oriau

yn gwylio'r teledu neu wrando ar y radio. Doeddwn i erioed wedi meddwl am beintio, ond gydag ychydig o anogaeth gan Jan, ein hartist preswyl, a'r nyrsys dialysis gwych, rwyf wir yn mwynhau fy hobi newydd.

"Mae'r sesiynau dialysis yn mynd yn gyflym rŵan ac mae treulio amser yn gwneud rhywbeth adeiladol sy'n ysgogi'r meddwl yn rhoi boddhad i mi. Rydym i gyd yn edrych ymlaen at arddangos ein gwaith ac yn gobeithio y daw llawer o bobl i'w gweld er mwyn i ni godi llawer o arian i sicrhau bod cleifion yn y dyfodol yn cael yr un cyfleoedd. "

Am fanylion pellach ynglŷn â'r 'Trysorau Celf', ffoniwch 01745 590719.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion
Elusen annibynnol yw Cyfeillion Gofal Arennol sy'n cael ei redeg gan gleifion, gofalwyr a chefnogwyr Uned Arennol Glan Clwyd yn Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan, Sir Ddinbych.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**
Mr Andy Scotson **01978 725130**
Mr Trystan Pritchard **01248 384938**

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

2 December 2010

Ysbyty Glan Clwyd Dialysis patients hold first ever art exhibition

Dialysis patients at Ysbyty Glan Clwyd are set to host their first art exhibition to showcase the exceptional artwork they have created during their treatment. The exhibition, which will raise money for the renal unit at the hospital, is entitled 'Art Treasures' and will take place at Rhuddlan Library Gallery between November 27 and January 8th 2011.

As part of one of the first NHS programmes to integrate art with medicine, patients undergoing Haemodialysis at Ysbyty Glan Clwyd have been able to enjoy art classes under the guidance of 'artist in residence' Jan Gardner. With dialysis treatment often taking place three times a week for four hours at a time, Ysbyty Glan Clwyd has introduced these art lessons as a way of breaking down the sterile, clinical environment found within hospitals.

Funded through Coleg Harlech and supported by Friends of Renal Care, these sessions have provided the patients with an opportunity to use and explore a range of materials to express themselves. Displaying artwork created by the patients during treatment, the exhibition will feature over 30 outstanding works of art. Prints of some of the artwork will also be available to be purchased at the exhibition, with all monies going towards the renal unit.

Dr Aled Lewis, Renal Consultant at Ysbyty Glan Clwyd commented: "Our renal patients often dread coming into the hospital for their time-consuming treatment. However, these art lessons have ensured that they have something to look forward to.

"It has been encouraging to see how offering patients the opportunity to learn new skills whilst they receive treatment has helped to alleviate the stress associated with kidney failure and its treatments. These lessons have made the time on dialysis more enjoyable for our patients and have given them a feeling of self belief and real achievement.

"We are extremely proud of our talented patients and hope that this exhibition will be a great success, raising much needed funds for the renal unit here at Ysbyty Glan Clwyd. "

Caz Hughes, a patient whose art will be exhibited added: "Before the art lessons began, dialysis sessions would involve sitting still for hours on end watching uninspiring TV or listening to the radio. I had never thought about painting, but with some encouragement from Jan, our resident artist, and the fantastic dialysis nurses I am really enjoying my new found hobby.

"The dialysis sessions now fly by and it is really pleasing to be able to do spend the time doing something constructive that really stimulates the mind. We are all extremely excited to have our work exhibited and hope that many people come and see it so that we can raise lots of money to ensure that patients in the future get the same opportunities."

For further information about the 'Art Treasures' exhibition, please contact 01745 590719.

ENDS

Notes to editors
Friends of Renal Care is an independent charity run by patients, carers and supporters of the Glan Clwyd Renal Unit at Glan Clwyd NHS Trust Hospital, Bodelwyddan, Denbighshire.

For further information please contact:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**